Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Penfro

Dyddiad archwilio: 11 – 15 Gorffennaf 2016

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 15 – 16 Mai 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.19 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o’r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu’r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. Hefyd, dylid sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys prydlondeb ymchwiliadau i hysbysiadau am glefydau heintus a bod y gwelliannau’n cynnwys camau i fynd i’r afael â’r amrywiad o ran cyflawni’r targed ar gyfer busnesau bwyd newydd. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Er bod yr awdurdod yn derbyn y sail ar gyfer yr argymhelliad, dylid nodi nad oedd y gwelliannau a awgrymwyd wedi’u gweithredu yn ystod archwiliadau blaenorol o Gynllun Gwasanaeth yr Awdurdod ar gyfer Gorfodi Cyfraith Bwyd. Bydd cynlluniau gwasanaeth y dyfodol yn cael eu drafftio yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.<br>Bydd mwy o eglurder yng Nghynllun 2017–18 ynghylch sut mae lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gorfodi diogelwch a safonau bwyd yn cymharu â’r galw a ragwelir ar y gwasanaeth. Yn ogystal, bydd gwybodaeth ar brydlondeb ymchwiliadau i glefydau heintus yn cael ei chynnwys, ynghyd ag unrhyw gamau a gynigir i fynd i’r afael ag unrhyw amrywiad o ran cyflawni’r targed arolygu ymhen 28 diwrnod ar gyfer busnesau newydd. | Gwelliannau wedi’u gwneud i gynnwys y cynllun gwasanaeth, gan gynnwys cyflwyno’r holl alwadau ar y gwasanaeth, dadansoddiad o’r adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael, a dadansoddiad o gostau’r gwasanaeth. | Sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys yr holl dargedau gweithredol fel sy’n ofynnol gan y canllawiau cynllunio gwasanaeth, gan gynnwys amseroldeb ymchwiliadau i hysbysiadau am glefydau heintus a chyflawni rhaglenni samplu. Sicrhau bod yr holl amrywiadau’n cael eu hegluro a’u trin fel meysydd i’w gwella; gan gynnwys ceisiadau am wasanaethau |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | brys ac amserau adrodd y CSHB. |
| 5.9 (i) Sicrhau bod swyddogion gorfodi bwyd wedi'u hawdurdodi o dan yr holl ddeddfwriaeth briodol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.1] | Glas | i) Adolygu rhestr o ddeddfiadau a bennir mewn dogfennau awdurdodi swyddogion.<br>ii) Roedd y swyddog dan hyfforddiant a oedd yn cynnal ymweliadau 'strategaeth orfodi amgen' risg isel wedi'i awdurdodi, er na fu'n bosib dod o hyd i'r ddogfen adeg yr archwiliad. Daethpwyd o hyd i'r ddogfen hon maes o law. | Mae awdurdodiadau swyddogion yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth briodol. | Cwblhawyd |
| 5.9 (ii) Cynnal a chadw cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol pob swyddog safonau bwyd awdurdodedig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5] | Glas | Er bod cofnodion hyfforddi llawn ar gael ar gyfer pob swyddog parhaol a gyflogir gan yr awdurdod lleol, mae'r awdurdod yn derbyn nad oedd cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus ar gael ar gyfer un contractiwr allanol a benodwyd yn flaenorol.<br>i) Os bydd swyddogion a gontractir yn allanol yn ymgymryd â gwaith yn y dyfodol, bydd yr awdurdod yn sicrhau bod swyddogion o'r fath yn darparu cofnodion hyfforddiant llawn cyn ymgymryd â'u dyletswyddau, a bod y cofnodion hynny'n cael eu cadw ar eu ffeil.<br>ii) Diweddaru'r Weithdrefn Hyfforddi i bwysleisio'r disgwyliad y bydd cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus contractwyr yn cael eu gwirio bob tro y byddant yn ymgymryd â gwaith i'r Adran. | Hyfforddiant a chymwysterau swyddogion yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Cwblhawyd |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Glas | | Gweithdrefnau wrth gefn | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| mewn perthynas â gweithdrefnau cronfa ddata. | | | wedi'u darparu ar gyfer cronfeydd data | |
| 6.10 (i) Gweithredu ei weithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer er mwyn sicrhau bod thermomedrau wedi'u graddnodi'n gywir bob amser.<br>[Y Safon – 6.2] | Glas | Er bod yr holl thermomedrau wedi'u graddnodi a bod y rhai a oedd yn cael eu defnyddio wedi bod yn destun y gwiriadau 'rhwng graddnodi' perthnasol, mae'r awdurdod yn derbyn nad oedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal ar un thermomedr sbâr nac ar un arall nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Felly, bydd yr awdurdod yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl thermomedrau y 'gellir' eu defnyddio yn ddarostyngedig i'r gwiriadau priodol. | Mae pob dyfais yn destun gwaith graddnodi cyfredol. | Cwblhawyd |
| 7.25 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | i) Mae'r awdurdod yn cydnabod bod 81 arolygiad yn hwyr, hynny yw, heb gael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad dyledus adeg yr archwiliad.<br>Mae'r awdurdod yn parhau i ymrwymo i arolygu pob safle sy'n disgwyl arolygiad yn ystod y flwyddyn, ac wrth wneud hynny, caiff ei arwain gan y dyddiad targed gwirioneddol ar gyfer pob ymweliad.<br>Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd cynnydd mewn galw neu ostyngiad mewn capasiti, er enghraifft, oherwydd absenoldebau staff wedi neu heb eu cynllunio. Ar yr adegau hyn, bydd adnoddau'n cael eu blaenoriaethu i gynnal yr arolygiadau risg uchaf cyn yr arolygiadau risg is, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith | Mae'r cynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau yn dibynnu ar dwf yn y capasiti, nad yw wedi'i sicrhau eto. Nid yw dibynnu'n drwm ar gontractwyr yn gynaliadwy. | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | Bwyd, er y gallai’r dyddiad targed ar gyfer yr arolygiadau risg is fod yn gynt.<br>At hynny, mae’n bosib y bydd safleoedd tymhorol yn cael eu targedu yn hytrach na safleoedd nad ydynt yn dymhorol tuag at ddiwedd y tymor, fel na chaiff y safleoedd hyn eu colli yn y rhaglen arolygu flynyddol.<br>Yn ogystal, bydd adegau pan fydd arolygiadau unigol yn ddyledus mewn ardaloedd mwy anghysbell o fewn y sir. Pan fo’r arolygiadau hyn yn rhai risg is, gellir oedi’r arolygiad y tu hwnt i’r 28 diwrnod targed er mwyn caniatáu i ymweliadau gael eu clystyru. Mae’r awdurdod o’r farn bod hwn yn ddull synhwyrol o reoli ein rhaglen waith, sy’n ystyried yr angen i leihau amser teithio a chostau, gan roi sylw dyledus i risg.<br>Ni all yr awdurdod ymrwymo i newid y dull pragmatig a chymesur hwn, sydd yn aml yn arwain at gyflawniad uchel iawn yn erbyn y rhaglen arolygu a gynlluniwyd erbyn diwedd y flwyddyn.<br>Yn arwyddocaol, roedd yr archwiliad yn cyd-daro â gweithredu cronfa ddata newydd, sy’n cael ei defnyddio ymhlith pethau eraill i reoli’r rhaglen arolygu safleoedd bwyd. Gwnaeth hyn effeithio rhywfaint ar oruchwyliaeth rheolwyr o’r rhaglen yn ystod y cyfnod hwn.<br>ii) Mae’r awdurdod yn cydnabod nad oedd 151 o ymyriadau amgen (holiaduron hunanasesu) wedi’u dosbarthu i fusnesau risg isel cymwys adeg yr | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | archwiliad, gan fynd y tu hwnt i'r dyddiad arfaethedig ar gyfer ymyriadau o fwy na 28 diwrnod ym mhob achos. Roedd hyn oherwydd yr arfer o ddosbarthu'r holiaduron hunanasesu fel swp i safleoedd cymwys yn ystod rhan olaf pob blwyddyn.<br>Yn y dyfodol, bydd holiaduron hunanasesu yn cael eu dosbarthu'n gynnar bob blwyddyn fel na fydd yr awdurdod yn methu'r dyddiadau targed ar gyfer yr ymyriadau risg isel hyn. | | |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â data ymyriadau. | Gwyrdd | | Nifer y gwallau o ran dyddiadau dyledus wedi'i leihau. | Sicrhau bod gwallau o ran dyddiadau dyledus yn cael eu nodi ac yn cael sylw. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd. | Glas | | Gweithdrefnau wedi'u diwygio | Cwblhawyd |
| 7.25 (ii) Sicrhau, lle y bo'n berthnasol, fod ymyriadau'n cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a | Glas | Er bod y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau yn gyffredinol yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad, rydym yn nodi, mewn un achos, fod y sgôr a ddyfarnwyd gan y swyddog ar gyfer arferion a gweithdrefnau hylendid wedi'i herio.<br>Wrth gydnabod bod y meini prawf ar gyfer dyfarnu sgoriau risg yn oddrychol a bod y gwahaniaeth rhwng dwy sgôr yn fater o ddehongli a barn, bydd yr | Wedi rhoi sgôr risg o ran cydymffurfiaeth â hylendid bwyd a chynnal y weithdrefn orfodi amgen yn unol â'r Cod | Cwblhawyd |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | | awdurdod yn parhau i fonitro'r broses o ddyfarnu'r sgoriau hyn i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn parhau'n gyson â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, Canllawiau Statudol ar Sgoriau Hylendid Bwyd, a bod y penderfyniadau'n cael eu cofnodi'n ddigonol. | Ymarfer Cyfraith Bwyd. | |
| 7.25 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llwyr â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol a sicrhau bod yr arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gafwyd yn ystod ymyriad/arolygiad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n brydlon fel nad yw gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.3 a 7.5] | Glas | Ym mhob achos ond dau, roedd lefel y manylion a gofnodwyd mewn aide-mémoires yn briodol i wirio bod asesiadau trylwyr wedi'u cynnal o gydymffurfiaeth busnesau â gofynion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP). Er hynny, mae'r awdurdod yn derbyn nad oedd digon o fanylion wedi'u nodi yn yr aide-mémoire mewn perthynas ag un Pwynt Rheoli Critigol ym mhob achos.  Derbyniwyd yr un pwynt ar gyfer un o'r arolygiadau o safleoedd cymeradwy lle'r oedd angen gwybodaeth bellach yn ymwneud â rheoli un Pwynt Rheoli Critigol.<br>Mae'r awdurdod yn cydnabod ymhellach fod dwy enghraifft wedi'u nodi lle nad oedd y cofnodion yn ddigon trylwyr i ddangos bod swyddogion wedi ystyried cydymffurfiaeth busnes yn llwyr wrth ddiogelu bwyd rhag croeshalogi.<br>Yn ogystal, mae'r awdurdod yn cydnabod y disgwyliad bod cofnod trylwyr yn cael ei gynnwys mewn aide-mémoires mewn perthynas ag unrhyw asesiad a wneir ar olrheiniadwyedd ac ar fwydydd a fewnforir (hynny yw, cadarnhau'r hyn a gafodd ei wirio a chasgliad y gwiriad hwnnw), gan yr ystyrir ei bod yn annigonol | Wedi cynnal asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth a chadw cofnod o arsylwadau. | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfyngu'r cofnod i b'un a oedd gwiriadau perthnasol wedi'u cynnal ac ychwanegu gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i eithriadau yn unig.<br>Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu i swyddogion mewn ymateb i'r sylwadau hyn a bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro a hyrwyddo cofnodion trylwyr fel rhan o'i brosesau monitro mewnol.<br>Yn ogystal, bydd aide-mémoire yr arolygiad yn cael ei ddiwygio i annog swyddogion i gynnwys mwy o wybodaeth am wiriadau ar olrheiniadwyedd ac ar fwydydd a fewnforir. | | |
| 7.46 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau safonau bwyd mewn sefydliadau eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r hyn a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Mae'r awdurdod yn gweithredu rhaglen arolygu safleoedd bwyd llawn integredig sy'n cwmpasu hylendid a safonau bwyd.<br><br>Mae'r awdurdod yn cydnabod bod 43 o ymyriadau'n hwyr, hynny yw, heb eu cynnal eto o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad dyledus adeg yr archwiliad; yr un safleoedd yw'r rhain y cyfeirir atynt at ddibenion hylendid uchod, nid safleoedd ychwanegol. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i arolygu pob safle y mae gofyn ei arolygu yn ystod y flwyddyn, ac wrth wneud hynny, caiff ei arwain gan y dyddiad targed ar gyfer pob ymweliad. Pan fo'r amser wedi dod i safle gael ei arolygu at ddibenion hylendid bwyd a safonau bwyd yn ystod blwyddyn y rhaglen, defnyddir y dyddiad targed ar gyfer hylendid bwyd at ddibenion cynllunio/amserlennu. Ar adegau, | Mae'r cynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymyriadau yn dibynnu ar dwf yn y capasiti, nad yw wedi'i sicrhau eto. Nid yw dibynnu'n drwm ar gontractwyr yn gynaliadwy. | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | gall hyn olygu bod yr arolygiad safonau bwyd yn hwyrach na'r dyddiad dyledus (o fewn y flwyddyn). Fodd bynnag, gwneir eithriad ar gyfer arolygiadau safonau bwyd Categori A, sef y categori risg uchaf. Mae'r awdurdod yn anelu at arolygu'r safleoedd hyn o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad targed. Ar wahân i hyn, mae'r sylwadau yn erbyn 7.25 (i) a (ii) uchod yn parhau i fod yn berthnasol. | | |
| 7.46 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Gweler y sylwadau yn erbyn 7.25 (ii). | Cynhelir ailymweliadau safonau bwyd a'r weithdrefn orfodi amgen yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Cwblhawyd |
| 7.46 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol a sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir wrth gynnal arolygiad/ymyriad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn | Glas | Mae'r awdurdod yn derbyn bod rhywfaint o le i gadw cofnodion safonau bwyd manylach ar gyfer rhai safleoedd 'risg isel'. Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu i swyddogion mewn ymateb i'r sylwadau hyn a bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro a hyrwyddo cofnodion trylwyr fel rhan o'i brosesau monitro mewnol. O ran yr ail-ymweliad y cyfeirir ato ym mhwynt 7.40 yn yr adroddiad, arolygwyd y safle ar 22 Mai 2016, ac roedd yr ail-ymweliad i fod i ddigwydd ar 14 Gorffennaf 2015. | Wedi cynnal asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth a chadw cofnod o arsylwadau. | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| atal gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll. [Y Safon – 7.3 a 7.5] | | Cynhaliwyd asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion labelu gan y swyddog mewn siop fanwerthu wahanol ar 20 Gorffennaf 2015. Yn ogystal, gwnaed galwad ddilynol i asesu cynnydd ac, ar gais gweithredwr y busnes, cafodd yr ail-ymweliad ei oedi tan fis Hydref. Gan nad oedd y busnes yn cydymffurfio’n llwyr ar yr ymweliad hwn, cynhaliwyd ymweliad pellach ym mis Tachwedd. Mae profiad yn dangos y gall “gwiriad realiti” ar y labelu ar gynhyrchion a anfonir at fanwerthwyr yn aml fod yn ffordd well o asesu cydymffurfiaeth nag arsylwi ar y labelu ar gynhyrchion a gedwir mewn stoc ar y safle. Ond gan fod yr Asiantaeth yn mynnu ar y pwynt hwn, bydd rhagor o ganllawiau yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion, a bydd y weithdrefn yn cael ei diwygio i bwysleisio mai dim ond drwy ymweld â’r safle y gellir cynnal ail-ymweliadau gwirio labelu. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy brosesau mewnol i fonitro perfformiad ac ansawdd. | | |
| 8.8 (i) Sicrhau yr ymchwilir i gŵynion am safonau bwyd yn unol â’r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a | Glas | Mae’r argymhelliad hwn, sy’n gysylltiedig â pharagraff 8.6 o’r adroddiad, yn ymwneud â dau achos lle nad oedd yr archwilwyr yn gallu ‘gwirio’ bod camau priodol wedi’u cymryd mewn perthynas ag ymchwiliadau i ddau achos o fynd yn groes i reolau safonau bwyd.<br>Bydd yr awdurdod yn parhau i asesu’r drefn o ran ymchwilio i gŵynion am safonau bwyd yn unol â gweithdrefnau monitro mewnol, gan gynnig canllawiau | Camau priodol wedi’u cymryd a’u dogfennu. | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 8.2] | | i swyddogion lle bo'n briodol, mewn perthynas â chamau gweithredu dilynol a chadw cofnodion. | | |
| 8.8 (ii) Cymryd camau priodol i weithredu ar gŵynion a ddaw i law yn unol â'i bolisi gorfodi. [Y Safon – 8.3] | Glas | Gweler y sylwadau yn erbyn 8.8 (i). | | Cwblhawyd |
| 12.10 (i) Diwygio ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer hylendid bwyd er mwyn cynnwys trefniadau ar gyfer samplu y tu allan i oriau swyddfa arferol. [Y Safon – 12.5] | Glas | Mae'r awdurdod yn nodi bod pwynt 12.5 o'r Safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith ar gyfer caffael neu brynu samplau, parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau o dan ei reolaeth yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Nid yw'r Safon yn nodi bod y weithdrefn yn cyfeirio'n benodol at sut y byddai trefniadau o'r fath hefyd yn gweithredu y tu allan i oriau, tra bydd angen i drefniadau addas fod ar waith. Felly, nid yw'r awdurdod yn ystyried mai achos o ddiffyg cydymffurfio â'r Safon yw hwn, er y gall dderbyn yr argymhelliad y gallai'r weithdrefn fod ar ei hennill wrth gynnwys y trefniadau hyn. O'r herwydd, bydd y Weithdrefn Samplu Bwyd gofnodedig yn cael ei diwygio i egluro'r trefniadau sydd ar waith. | Gweithdrefnau wedi'u diwygio | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 15.17 (i) Adolygu a diwygio ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig er mwyn ailystyried y cyngor i samplu yn y weithdrefn ar gyfer atafael, cadw ac ardystio bwyd anniogel ac er mwyn cynnwys mwy o fanylion am y trefniadau lleol ar gyfer gwneud cais i’r Llys i bennu Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys. [Y Safon – 15.2] | Glas | Mae’r awdurdod yn nodi bod pwynt 15.2 o’r Safon yn darparu gofyniad cyffredinol, sef bod yn rhaid i awdurdodau sefydlu, cynnal a rhoi gweithdrefnau cofnodedig ar waith ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â’r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol, ond heb unrhyw gyfarwyddiadau y tu hwnt i hyn o ran i ba raddau y dylid manylu ar y trefniadau.<br>Fodd bynnag, mae’r awdurdod yn derbyn yr argymhellion, a bydd y Gweithdrefnau Gorfodi perthnasol yn cael eu diwygio i gynnwys gwybodaeth i swyddogion am y trefniadau ymarferol ar gyfer gwneud cais i’r Llys am wrandawiad mewn perthynas â Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys ac i egluro nad yw samplu’n angenrheidiol pan dderbynnir bod bwyd wedi methu â bodloni gofynion diogelwch bwyd trwy ardystio bwyd o dan Reoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. | Gweithdrefnau wedi’u diwygio | Cwblhawyd |
| 15.17 (ii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gyflawni yn unol â’i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2 ac 15.3] | Glas | O ran prydlondeb wrth gyflwyno un o’r Hysbysiadau Gwella Hylendid, cynhaliwyd ail-ymweliad â’r safle y diwrnod canlynol i wirio cydymffurfiaeth â materion o bwys, a chafodd hysbysiadau eu cyflwyno ryw 12 diwrnod yn ddiweddarach ar gyfer HACCP a hyfforddiant, lle’r oedd yr amserlen gydymffurfio yn hirach (tua 6 wythnos).<br>Er i’r archwilwyr awgrymu y dylai gwaith swyddogion rhan amser gael ei wneud gan eraill er mwyn sicrhau | Gwelliannau wedi’u dangos o ran rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau gwella, erlyn a chyflwyno | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | bod hysbysiadau'n cael eu cyflwyno'n gyflym, nid ystyrir bod hwn yn awgrym ymarferol. Fodd bynnag, gall yr awdurdod dderbyn y dylai'r hysbysiadau fod wedi'u cyflwyno o fewn 10 diwrnod gwaith, sef yr amserlen ar gyfer adroddiadau. Bydd hyn yn cael ei ategu mewn cyfarfodydd tîm a thrwy fonitro.<br>Bydd yr awdurdod yn adolygu ei drefniadau gweinyddol mewn perthynas â hysbysiadau statudol i sicrhau:<br>- bod enw llawn y gweithredwr busnes bwyd yn cael ei nodi bob tro<br>- bod gwir gopïau o'r holl hysbysiadau sy'n cynnwys llofnod y swyddog cyhoeddi yn cael eu cadw, hynny yw, nid cadw copïau electronig 'heb eu llofnodi' yn unig<br>- bod prawf clir o'r ffaith bod hysbysiadau wedi'u cyflwyno yn cael ei gadw mewn ffeiliau ym mhob achos<br>- bod cydymffurfiaeth â hysbysiadau'n cael ei chadarnhau yn glir yn ysgrifenedig ym mhob achos<br>Bydd y dull o ddynodi rolau o ran datgelu deunydd erlyn yn cael ei ystyried mewn trafodaethau â Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor, gan roi sylw i Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Dylid cofnodi hyn yn glir mewn ffeiliau erlyn. | rhybuddion syml. | |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 15.17 (iii) Sicrhau bod ei Bolisi Gorfodi'n cael ei weithredu a bod pob penderfyniad ynghylch camau gorfodi'n cael ei gofnodi a'i wneud drwy ystyried y Polisi Gorfodi. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safonau – 15.1 ac 15.4] | Gwyrdd | Mae Polisi Gorfodi'r awdurdod yn nodi rhestr o feini prawf sy'n berthnasol wrth ystyried a allai camau gweithredu anffurfiol fod yn briodol. Mae hyn yn galw am farn gytbwys gan ystyried arwyddocâd pob un o'r meini prawf hyn. Er enghraifft, gellir bod mewn sefyllfa lle canfyddir risg sylweddol, ond bod lefel yr hyder yn nulliau rheoli'r busnes a'i hanes o gydymffurfio yn golygu bod modd rhoi camau amserol/di-oed ar waith heb orfod dibynnu ar ddulliau gorfodi ffurfiol eraill. Byddai mabwysiadu agwedd gulach yn rhy gyfyngol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ddiangen. Mae'r awdurdod yn nodi'r sylwadau bod yr archwilydd, mewn tri achos, yn teimlo bod y Polisi Gorfodi'n galw am gymryd camau ffurfiol, ac, mewn dau achos, na chymerwyd camau gweithredu ffurfiol ac amserol, er bod angen cymryd camau i atal rhai prosesau cynhyrchu bwyd.<br>Mae'r awdurdod yn ymwybodol bod yn rhaid iddo ystyried a oes angen gweithredu'n ffurfiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Yn yr achosion dan sylw, mae'n ystyried na fyddai gweithredu'n ffurfiol (cyflwyno hysbysiad) wedi arwain at welliant sylweddol o ran diogelu iechyd y cyhoedd, a bod yr ail-ymweliadau gorfodi a drefnwyd ac a gynhaliwyd wedi'u hamseru'n briodol i wirio a oedd y busnes wedi ymgymryd â'r camau angenrheidiol. | Tystiolaeth bod y Polisi Gorfodi wedi'i ystyried mewn penderfyniadau erlyn. | Rhaid sicrhau y cymhwysir ystyriaethau o ran y Polisi Gorfodi pan eir y tu hwnt i'r meini prawf gweithredu anffurfiol. Os gwneir penderfyniadau i wyro oddi wrth feini prawf y Polisi, sicrhewch fod y rhesymeg yn cael ei dogfennu ym mhob achos. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | Pan fydd angen gweithredu i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, mae'r awdurdod yn ymrwymo i barhau i sicrhau ei fod yn cymryd y camau mwyaf priodol, p'un a ydynt yn gamau ffurfiol neu anffurfiol.<br>Bydd yr awdurdod yn sicrhau, os bydd yn gwyro oddi wrth eiriad y Polisi Gorfodi, fod y rhesymau dros hynny'n cael eu cofnodi, yn ogystal â'r cyfiawnhad dros unrhyw wyro. Ym mhob achos, bydd yr awdurdod yn sicrhau, pan fydd angen cymryd camau dilynol i gael gwared ar unrhyw risgiau, ei fod yn cymryd y rhain cyn gynted â phosib gan ystyried y risg.<br>O ran y sylw bod yr archwilwyr yn 'methu gwirio bod ystyriaeth o brawf lles y cyhoedd wedi'i gofnodi'n ddigonol', y drefn arferol ar gyfer pob achos sy'n cael ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr er mwyn ei ystyried ar gyfer erlyniad/rhybudd syml yw iddo gael ei gyfeirio'n gyntaf at Adran Gyfreithiol y Cyngor, yn benodol er mwyn asesu yn erbyn y profion 'tystiolaethol' a'r profion o ran 'lles y cyhoedd' sydd wedi'u cynnwys yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cydnabyddir nad oedd unrhyw gofnod o hyn yn y man priodol yn unrhyw un o'r ffurflenni 'Penderfyniad i Erlyn'. Fodd bynnag, mae sylwadau cyfreithiol sy'n berthnasol i'r materion hyn wedi'u darparu trwy e-bost (gan amrywio o ran arddull, fformat a chynnwys) a'u hychwanegu at y ffeil i'w hystyried gan y Cyfarwyddwr. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, bydd yr awdurdod yn adolygu'r dull a gymerir wrth gofnodi'r ystyriaethau a'r safbwyntiau sy'n berthnasol i'r profion hyn, mewn trafodaethau â'r Adran Gyfreithiol, gyda'r nod o sicrhau bod hyn yn glir ym mhob achos.<br>Bydd y dull o ddynodi rolau o ran datgelu deunydd erlyn yn cael ei ystyried mewn trafodaethau â Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor, gan roi sylw i Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Dylid cofnodi hyn yn glir mewn ffeiliau erlyn. | | |
| 16.6 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad (gan gynnwys copïau o adroddiadau arolygiadau bwyd), penderfyniadau ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion | Gwyrdd | Bydd yr awdurdod yn adolygu ffeiliau cymeradwyo yn erbyn y rhestr o ddogfennau sy'n ofynnol yn Atodiad 10 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael. | Mae gwybodaeth am arolygiadau'n cael ei chynnal yn gyffredinol. | Sicrhewch fod ffurflen gofrestru bwyd yn cael ei chadw ar ffeil ar gyfer busnesau bwyd.<br><br>Sicrhewch fod ffeiliau cymeradwyo yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a phriodol mewn perthynas â'r busnes fel yr amlinellir ym |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o ddiffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw waith samplu a gwybodaeth gymeradwyo. [Y Safon – 16.1] | | | | mhennod 2.12.10 o'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

<u>Crynodeb:</u>

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **20** |
| **Cwblhawyd** | **14** |
| **Cynnydd da** | **4** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **2** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **6** |